Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y brifysgol ddydd Gwener, 12 Chwefror 2021.

**Presennol:**
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Mr Atul Devani, Mr Iwan Evans, Mr Eric Hepburn, Dr Griff Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Ms Julie Perkins, Dr Ian Rees, yr Athro Gareth Roberts, yr Athro Oliver Turnbull, Mr Henry Williams, Dr Lynne Williams, Mr Tudur Williams a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

**Ymddiheuriadau**:
Mr Kailesh Karavadra, a roddodd sylwadau cyn y cyfarfod.

**Yn bresennol hefyd:**
Yr Athro Nicky Callow, Mr Rob Eastwood, yr Athro Andrew Edwards, Mrs Tracy Hibbert, Dr Kevin Mundy, yr Athro Paul Spencer, Mrs Lorraine Westwood a Mr Lars Wiegand.

Yn ogystal, roedd yr Athro Paul Downing, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Ymchwil yn bresennol ar gyfer eitem 20.48. Roedd Mr Mike Wilson, Pennaeth Cynllunio a Data Myfyrwyr, a Ms Taryn Rock, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata Brand, yn bresennol ar gyfer eitem 20.54.

## 20.45 LLONGYFARCHIADAU

A. Ar dderbyn Cadair Athro ar Ymweliad:

**Yr Athro Lyndon Edwards,** Sefydliad Dyfodol Niwclear, Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg

B. Nododd y cadeirydd y llwyddiannau canlynol hefyd:

**Olrhain COVID-19 a firysau eraill mewn dŵr gwastraff**

Mae ymchwilwyr yn y brifysgol yn gweithio gyda phartneriaid yn Nigeria a De Affrica i fonitro achosion COVID-19 mewn cymunedau yn y ddwy wlad. Bu Prifysgol Bangor yn chwarae rhan allweddol yn datblygu a chymhwyso dulliau monitro Covid-19 mewn dŵr gwastraff, ac mae hynny'n cynnig tystiolaeth gyfredol o lefelau'r haint mewn cymunedau. Mae'r tîm bellach yn gweithio gyda'r Prifysgolion yn y DU, UDA, Nigeria a De Affrica.

**Athro ym Mangor ar Restr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd**

Roedd yr Athro Sandy Toogood, Athro er Anrhydedd yn Ysgol Addysg Prifysgol Bangor wedi ei gynnwys ar Restr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd a derbyniodd Fedal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM) am wasanaethau i bobl ag anableddau deallusol.

**Darlithydd Clinigol Bangor yn chwarae rhan flaenllaw yn nhreialon Novavax**

Bu Dr Orod Osanlou, Uwch Ddarlithydd Clinigol mewn Gwyddorau Meddygol (Ffarmacoleg / Fferylliaeth) yn gysylltiedig â threialon byd-eang o Novavax, brechlyn COVID-19 newydd, a chyhoeddwyd canlyniadau interim addawol iawn yn ddiweddar. Roedd yn gweithredu yn ei swyddogaeth fel Prif Ymchwilydd ar gyfer y treial yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymgynghorydd mewn Ffarmacoleg Glinigol a Therapiwteg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

C. Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd y cadeirydd yn gynnes yr aelodau staff dan sylw.

**20.46 MARWOLAETHAU**

Cyfeiriodd y cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Mrs Vera Owen,**
Cyn aelod staff yn y Swyddfa Tai Myfyrwyr

**Mrs Vivienne Annette Smith,**
Cyn aelod staff yn y Gwasanaethau Eiddo a Champws

**Miss Wenyan Ma,**
Myfyriwr yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion

**Mr Ray Davies**
Darlithydd er Anrhydedd, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig

**Dr Osian Gwynn Ellis**
Cymrawd Er Anrhydedd

**Miss Mara Ostafichuk,**
Aelod staff yn yr Ysgol Gwyddorau Iechyd

**Mrs Ruth Goggin**
Cyn aelod staff yn Swyddfa'r Cofrestrydd a'r Gofrestrfa Academaidd.

Bu'r aelodau yn dawel er cof amdanynt.

## 20.47 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Datganodd Dr Llion Jones fuddiant mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda: *Covid-19 - Ymdrin â'r Heriau Ariannol.*

## 20.48 FFRAMWAITH RHAGORIAETH YMCHWIL (REF) CYFLWYNIAD 2021

A. Croesawodd y Cadeirydd yr Athro Paul Downing, Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Ymchwil i'r cyfarfod. Rhoddodd yr Athro Spencer a'r Athro Downing drosolwg a chyflwyniad i'r Cyngor ar yr ymarfer ffug REF a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020. Nodwyd mai amcan yr ymarfer oedd rhoi cipolwg ar sefyllfa'r brifysgol mewn perthynas â chyflwyniad REF2021, fydd i'w wneud ym mis Mawrth 2021. Gan ddilyn codau ymarfer y brifysgol a dibynnu ar adolygiadau mewnol ac allanol, cafwyd amcangyfrifon o'r sgoriau REF ar gyfer elfennau allbwn, effaith ac amgylchedd cyflwyniadau i bob un o'r 9 uned asesu. Yn ogystal, nodwyd camau gweithredu allweddol sy'n weddill, a'r camau i'w cwblhau.

Dywedwyd wrth y Cyngor bod canlyniadau'r Ffug REF yn dangos bod yr amcan gorau o'r cyfartaledd pwynt graddfa (GPA) cyffredinol ar gyfer REF2021 tua 5% yn uwch na'r GPA o REF2014. Adroddodd yr Athro Downing er bod tipyn o hyder am y cynnydd cymedrol mewn GPA, nodwyd y byddai'n ddoeth tybio ei bod yn annhebygol o fod yn ddigonol i gynnal safle presennol y brifysgol mewn tablau cynghrair. Yn dilyn cwestiynau gan aelodau tynnwyd sylw at brif effeithiau REF2021 ar draws y sefydliad sef cyllid ymchwil wedi'i bwysoli o ran ansawdd (QR), a fyddai'n dibynnu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru ynglŷn â fformiwlâu dyrannu cyllid ar ôl i'r canlyniadau fod yn hysbys, a safle'r brifysgol mewn tablau cynghrair, gydag effeithiau dilynol ar ddenu cyllid a recriwtio myfyriwr.

C. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Spencer a'r Athro Downing am eu diweddariad llawn gwybodaeth a gafodd ei nodi gan y Cyngor a dymunwyd yn dda iddynt ar gyfer y cyflwyniad ym mis Mawrth.

## 20.49 COFNODION

A. **Cadarnhawyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2020.

B. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor yr adroddiadau cynnydd a'r camau gweithredu a gwblhawyd.

**Cofnod 19.107: Adolygiadau Datblygu Perfformiad**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfraddau cwblhau adolygiad datblygu perfformiad gan nodi bod y gyfradd gwblhau gyffredinol yn

80% adeg y dyddiad cau ym mis Tachwedd. Nodwyd bod y brifysgol yn dymuno gwella hyn dros y ddwy flynedd nesaf i 90% a fyddai uwchlaw norm y sector.

## 20.50 MATERION Y CADEIRYDD

Adroddodd y Cadeirydd ar ddwy eitem o fusnes yr oedd wedi delio â nhw ers cyfarfod diwethaf y Cyngor:

A. Yn dilyn ymarfer recriwtio cystadleuol cymeradwywyd Mr Mark Condron fel Ymddiriedolwr Proffesiynol i Fwrdd Cynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Bangor (BUPAS).

B. Anfonodd y Cadeirydd lythyr at Dr David Blaney, HEFCW yn gofyn yn ffurfiol am gynyddu trothwy ymrwymiadau ariannol y brifysgol er mwyn cael mynediad at gyllid i gefnogi ei sylfaen ymchwil trwy’r cynllun Sustaining University Research Expertise Fund (SURE).

## 20.51 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw'r Cyngor at nifer o eitemau penodol sy'n berthnasol i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru a'r DU. Rhoddwyd diweddariadau pellach hefyd yn y papur briffio a gylchredwyd o dan eitem 4 ar yr agenda. Nodwyd bod nifer o faterion ar y gorwel y byddai'r Is-ganghellor a'r Pwyllgor Gweithredu yn eu monitro dros y misoedd nesaf.

Nodwyd yn benodol y gallai'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, a chanlyniad Adolygiad Augar, gael effaith ar ofynion mynediad isaf, cyllid myfyrwyr a blynyddoedd sylfaen. Yn ogystal, bydd lefel y gyllideb addysg uwch a neilltuwyd o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ddechrau mis Mawrth yn allweddol. Mae diweddariad Syr Steve Smith i Strategaeth Addysg Ryngwladol Llywodraeth y DU yn rhoi cyfleoedd i'r brifysgol ddatblygu ei meddwl strategol ei hun ac adnewyddu ei strategaeth ryngwladol.

B. Diolchodd y cadeirydd i'r Is-ganghellor am ei ddiweddariad a mynegodd ei diolch i'r tîm gweithredu cyfan am eu harweinyddiaeth. Estynnwyd diolch y Cyngor cyfan hefyd i'r holl aelodau staff sy’n parhau i weithio’n galed i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol.

## 20.52 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRYWR

A. Nododd y Cyngor y diweddariadau a gyflwynwyd gan Undeb y Myfyrwyr a chan UMCB o dan eitem 5 ar yr agenda. Tynnodd Mr Henry Williams a Mr Iwan Evans sylw at y pwyntiau allweddol canlynol hefyd:

- Cynhelir etholiad y Swyddogion Sabothol ym mis Mawrth, gydag ymgyrchu’n digwydd ar ddechrau’r mis, a chyhoeddir canlyniad yr etholiadau erbyn y drydedd wythnos ym mis Mawrth. Nodwyd, trwy gytundeb â'r Cadeirydd, y byddai'r Llywydd

newydd, a Llywydd UMCB yn cael eu gwahodd i gysgodi yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ebrill.

- Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gael eu briffio am waith Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli llais y myfyrwyr ar y Cyngor, roedd trafodaethau yn parhau i drefnu sesiwn friffio i aelodau o'r tîm Sabothol yn ystod y gwanwyn  Croesawodd aelodau'r Cyngor y cynllun hwn a fyddai'n rhoi trosolwg da i aelodau annibynnol, yn benodol, o waith y Swyddogion Sabothol.

- Cynhaliwyd trafodaethau gydag aelodau o Bwyllgor Gweithredu'r brifysgol ynglŷn ag ad-daliadau rhent i fyfyrwyr. Nodwyd bod y brifysgol wedi rhoi ad-daliad o 10% ar ffioedd neuaddau i bob myfyriwr yn y neuaddau.

- Roedd sesiwn holi ac ateb a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda'r Dirprwy i'r Is-ganghellor a'r Dirprwy Is-Gangellorion wedi cael ei chroesawu gan y myfyrwyr, ac roedd cynnal sesiynau holi ac ateb pellach yn cael eu hystyried.

B. Diolchodd y cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mr Williams a Mr Evans am adroddiad llawn gwybodaeth, am eu gwaith caled yn ystod y semester ac am eu hymwneud cadarnhaol parhaus â'r brifysgol.

C. Rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredol y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r cyllid o £40m gan HEFCW i fynd i'r afael â chaledi myfyrwyr sy'n deillio o'r pandemig. Nodwyd bod pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn gweithio tuag at gytuno ar ddull cyffredinol o ddosbarthu'r cyllid er mwyn sicrhau cysondeb rhwng prifysgolion Cymru. Bu grŵp sector gwasanaethau myfyrwyr AMOSSHE yn trafod y mater yn ddiweddar a bu'n ystyried categorïau ar gyfer dyrannu'r cyllid, a oedd yn cael eu hystyried gan HEFCW ar hyn o bryd.  Yn y cyfamser roedd trafodaethau'n parhau yn y brifysgol a chydag Undeb y Myfyrwyr am y prosesau  sydd eu hangen i weinyddu'r cyllid.

## 20.53 DARPARU GWASANAETHAU ADDYSG A HYFFORDDIANT I WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL (HEIW) CYFNOD 1

A. Rhoddodd yr Athro Callow a Dr Williams drosolwg i'r Cyngor o'r gwaith a wnaed ar gyflwyno tendr Darparu Gwasanaethau Addysg a Hyfforddiant i Weithwyr Iechyd Proffesiynol Cyfnod 1, ddiwedd mis Ionawr i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), comisiynydd hyfforddiant iechyd a meddygol i Gymru.

Adroddwyd bod ymarfer tendro blaenorol yn 2012 wedi arwain at y brifysgol yn ennill y tendr am ddarpariaeth nyrsio ledled Gogledd Cymru. Nododd y Cyngor bod y gwahoddiad i dendro wedi cael ei lansio gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru fis Hydref 2019, ac ers hynny bu Dr Williams yn arwain grŵp sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Gweithredu, y Coleg Gwyddorau Dynol a'r Ysgol Gwyddorau Dynol i baratoi ar gyfer y cais. Themâu allweddol y tendr yw addysg ryngddisgyblaethol, arweinyddiaeth

dosturiol a'r Gymraeg. Roedd y brifysgol wedi cyflwyno cynigion am 15 o lotiau, a phe baent yn llwyddiannus byddai'n sicrhau oddeutu £300m o gyllid dros oes y contract.

Rhoddodd yr Athro Callow amlinelliad o’r risgiau o beidio â llwyddo yn y broses dendro a fyddai’n golygu gostyngiad mewn incwm a niferoedd myfyrwyr mewn perthynas â’r lotiau hynny na fyddai’r brifysgol yn eu hennill, ond ystyriwyd bod y cais yn gryf ac roedd y tîm a oedd yn gysylltiedig â’r tendr yn weddol optimistaidd.

Nodwyd bod disgwyl canlyniad y tendr fis Mai 2021, a phe bai'r brifysgol yn llwyddiannus, byddai nifer o feysydd datblygu i'w cyflawni'n gyflym megis penodi staff, isadeiledd, meddalwedd a modelu campws o bell.  Wrth baratoi ar gyfer y cais, roedd yr Ysgol Gwyddorau Iechyd eisoes wedi buddsoddi mewn datrysiadau digidol fel prynu system rheoli lleoliadau a chaffael system e-bortffolio.  Nodwyd bod hwn yn faes twf o ran niferoedd myfyrwyr ac y byddai angen datblygu cynllun marchnata creadigol ac arloesol i fanteisio ar y twf hwn yn y farchnad.

B. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Callow a Dr Williams am eu harweinyddiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf wrth baratoi'r cais a nododd y gallai'r Cyngor gymryd cysur o ansawdd y cyflwyniad.

**20.54 CYNLLUN STRATEGOL DRAFFT**

A. Cyflwynodd yr Is-ganghellor y Cynllun Strategol drafft i'r Cyngor. Nodwyd y cafodd y Cyngor dri Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd lle trafwyd y colofnau strategol a'r themâu trawsbynciol dros y misoedd diwethaf, yn ogystal â sesiwn friffio ddiweddar a roddodd y cyd-destun am sut y datblygwyd y cynllun. Hwn oedd y cyfle cyntaf i'r Cyngor roi adborth ar y ddogfen, a fyddai'n dychwelyd i'r Cyngor ym mis Ebrill yn dilyn ymgynghori.  Dywedwyd wrth y Cyngor bod y Cynllun wedi'i ddatblygu gan y Pwyllgor Gweithredu ac roedd arweinwyr gweithredu wedi'u nodi ar gyfer pob un o'r colofnau a'r themâu. Mae Fframwaith Strategol wedi'i ddatblygu hefyd, sy'n darparu hierarchaeth sy’n atebol i’r strategaeth gyffredinol sy'n cynnwys is-strategaethau, prosesau cynllunio busnes blynyddol y brifysgol a fframwaith monitro perfformiad. Rhoddodd yr Athro Turnbull, yr Athro Callow, yr Athro Edwards a’r Athro Spencer wybodaeth i'r aelodau am eu priod feysydd, gan dynnu sylw at y pwyntiau allweddol sydd wedi eu cynnwys o dan bob colofn a thema drawsbynciol.

B. Yn dilyn y cyflwyniadau gan yr Is-ganghellor a'r Pwyllgor Gweithredu, gwnaed nifer o sylwadau ac awgrymiadau gan aelodau'r Cyngor. Nodwyd y pwyntiau canlynol yn neilltuol:

- Croesawodd yr aelodau y cyfeiriad strategol clir sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun;
- Croesawyd ymrwymiad y brifysgol i ddwyieithrwydd ac i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg Nodwyd bod angen nodi'r ymrwymiad trwy gydol pob agwedd ar y Cynllun drafft gan gynnwys yn y datganiad cenhadaeth. Nodwyd ethos dwyieithog unigryw'r brifysgol fel pwynt gwerthu allweddol i'r brifysgol, a oedd yn denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd i astudio ym Mangor;

- Roedd Undeb y Myfyrwyr yn falch o nodi bod profiad myfyrwyr yn cael ei gynnwys yn glir fel colofn gan awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ymgorffori hyn ar draws pob thema;
- Roedd angen nodi'r dyheadau cynaliadwyedd yn y cynllun yn gliriach yn y datganiad cenhadaeth;
- Mae'n rhaid i amcan y brifysgol i weithio'n rhyngwladol, yn rhanbarthol ac yn lleol redeg trwy gydol y Cynllun, ac nid yn yr adran ar genhadaeth ddinesig a dwyieithrwydd yn unig.

Yn dilyn y drafodaeth, cadarnhaodd yr Is-ganghellor y byddai cyfnod o ymgynghori yn cael ei gynnal dros yr wythnosau nesaf, fel yr amlinellwyd yn y fframwaith ymgynghori a ddarparwyd i'r Cyngor yn ei sesiwn friffio ddiweddar. Yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, byddai aelodau'r Cyngor yn cael cyfle i roi adborth manylach i'r broses.

Daeth y Cadeirydd â'r drafodaeth i ben a thalodd deyrnged i'r gwaith caled a wnaed gan bawb a oedd wedi cyfrannu at ddod â'r ddogfen ddrafft gerbron y Cyngor. Croesawyd yr ymdeimlad o uchelgais a gyflwynwyd gan y Cynllun gan yr aelodau.

C. Yn dilyn trafodaeth, **cymeradwyodd** y Cyngor i'r Cynllun Strategol drafft fynd allan i ymgynghoriad cyn ei ddychwelyd i'r Cyngor yn y cyfarfod ym mis Ebrill 2021.

**20.55 COVID-19: YMDRIN Â'R HERIAU ARIANNOL**

A. Atgoffwyd y Cyngor, yr hysbyswyd yr aelodau yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, bod prosesau cyfochrog yn mynd rhagddynt, yn rhinwedd y llythyr Adran 188, i gyflawni'r arbedion sy'n ofynnol a hefyd i liniaru neu osgoi unrhyw ddiswyddiadau gorfodol. Roedd y broses ailstrwythuro wedi cynnig newidiadau ym mhob un o'r Colegau ac yn y Gwasanaethau Proffesiynol a dosbarthwyd Achosion Busnes dros Newid i staff a myfyrwyr y brifysgol yn ogystal ag i aelodau o'r gymuned ehangach i ymgynghori yn eu cylch dros gyfnod o chwe wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori rheolaidd gyda'r undebau llafur cydnabyddedig er mwyn deall y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r brifysgol ac edrych i weld sut y gellid osgoi diswyddiadau gorfodol

Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wrth yr aelodau, er bod cynnydd wedi'i wneud, yn bennaf trwy Ddiswyddiadau Gwirfoddol, roedd angen gwneud tua £2m o arbedion o hyd sy'n cyfateb i oddeutu 9 swydd yn y maes academaidd a 45 swydd o fewn y Gwasanaethau Proffesiynol. Roedd trafodaethau yn parhau i geisio gwireddu'r arbedion trwy ddulliau gwirfoddol. Yn ogystal, ac mewn perthynas â chyllidebau ac eithrio cyflogau mae'r brifysgol wedi ymrwymo i leihau gwariant ac eithrio cyflogau yn ôl £3m y flwyddyn o 2021/22 ymlaen.

B. **Nododd** y Cyngor y diweddariad yn yr adroddiad, a'r camau nesaf a amlinellwyd.

## 20.56 MATERION YSTADAU

A. Ystyriodd y Cyngor y diweddariadau a roddwyd yn y Log Gweithredu mewn perthynas â gwerthu eiddo. Yn benodol tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws sylw'r Cyngor at y materion a ganlyn:

[1] Roedd adnewyddu'r drwydded gydag Ystâd y Goron i hwyluso gwerthu Cwt Cychod Nantporth yn mynd rhagddo.

2] Roedd y gwaith o waredu safle Pen-y-Ffridd yn mynd rhagddo, ond adroddwyd bod y cais cynllunio amlinellol gan y darpar brynwr wedi'i wrthod. Roedd y darpar brynwyr wedi apelio, a disgwylir penderfyniad ym mis Ebrill.

[3] Roedd gwerthiant Ynys Faelog yn mynd rhagddo, gydag adnewyddu'r drwydded gydag Ystâd y Goron yn parhau er mwyn hwyluso cyfnewid contractau.

[4] Roedd contractau gwerthu Y Felin Tysilio ar fin cael eu cyfnewid.

[5] O ran Datblygiadau Cyfalaf mae disgwyl i'r gwaith ar y Labordy Anatomeg gael ei gwblhau ym mis Ebrill, ac mae byrddau/timau project yn cael eu sefydlu i oruchwylio datblygiad y campws gwyddoniaeth ac arloesi ar Ffordd Deiniol, yn ogystal â'r llif gwaith mewn perthynas â Gwasanaethau Proffesiynol.

## 20.57 ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON ARIANNOL

A. Derbyniodd ac ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer 2019/20, a argymhellwyd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Nodwyd y canlynol:

[1] Oherwydd effeithiau'r pandemig Covid-19 dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig o ran bodloni'r gofynion busnes hyfyw, mae HEFCW wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi cyfrifon blynyddol 2019/20 i ddiwedd mis Chwefror 2021.

[2] Mae'r adolygiad busnes hyfyw wedi bod yn llawer mwy helaeth nag mewn blwyddyn arferol, oherwydd effaith Covid-19, a rhaglen ailstrwythuro'r brifysgol.

[3] Cafwyd ailddatganiad o gyfrifon 2018/19 i gydnabod gwarged mewn perthynas â chynllun pensiwn lleol y brifysgol (BUPAS) ar fantolen y brifysgol.

[4] Mae'r perfformiad ariannol yn well na'r disgwyl; y datganiad llif arian yw'r agwedd allweddol ar berfformiad ariannol, ac mae'r mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu yn dangos gwelliant bach ar y flwyddyn flaenorol. Roedd y cyfrifon yn dangos gwarged gweithredu o dan FRS102 o tua £11m.

Roedd yr arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau yn dangos gwelliant i £1212.4m, ac roedd yr arian parod a buddsoddiadau tymor byr ar 31 Gorffennaf 2020 yn £32.8m.

[5] Derbyniwyd canlyniad cadarnhaol gan yr Archwilwyr Allanol, a dangoswyd y dybiaeth busnes hyfyw tan ddiwedd 2021.

[6] Mae'r archwilwyr yn gofyn yn flynyddol am Lythyr Cyflwyno Achos ac mae'n cynnwys datganiadau ychwanegol bod y Cyngor yn hyderus y cyflawnir targedau incwm ac arbedion yn y dyfodol. Ystyriwyd y llythyr hwn hefyd.

B. Wedi ystyriaeth lawn, **penderfynwyd**:

[1] Cymeradwyo'r Cyfrifon am 2019/20 a'u llofnodi gan Gadeirydd y Cyngor, yr Is-ganghellor, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'u hanfon at HEFCW.

[2] Bod y Llythyr Cyflwyno Achos at yr Archwilwyr i'w lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor.

C. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2021) yn ymwneud â chyllid Sustaining University Research Expertise (SURE) **penderfynodd** y Cyngor weithredu, darparu a chyflwyno'r Cytundeb sy'n ymwneud â SURE, ac yn benodol i:

[1] Gymeradwyo telerau cyllid SURE, a'r trafodion a ystyrir. Nodwyd bod hwn yn cynnwys benthyciad o £1,051,000 fel rhan o gyfanswm cyllid o £1,065,826 dros gyfnod o 10 mlynedd gyda llog yn cael ei godi ar 0.55% y flwyddyn.

[2] Awdurdodi Mr Robert Eastwood, Cyfarwyddwr Cyllid (Dros Dro) i weithredu'r Cytundeb; ac

[3] Awdurdodi Mr Robert Eastwood (Cyfarwyddwr Cyllid (Dros Dro), ar ran y Cyngor, i lofnodi a/neu anfon yr holl ddogfennau a hysbysiadau (gan gynnwys y Cais Defnydd) y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu llofnodi a/neu eu hanfon o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn.

## 20.58 TUEDDIADAU'R BRIFYSGOL A PHROFFILIAU YSGOLION

**Nododd** y Cyngor y wybodaeth am dueddiadau'r brifysgol a phroffiliau ysgolion a ddarparwyd fel dogfen gyfeirio i aelodau. Adroddwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei huwchlwytho i'r maes Gwybodaeth ar Boardpacks. Hysbysodd Dr Mundy y Cyngor y bydd y dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn y dyfodol, a fydd yn eu hystyried ar ran y Cyngor.

## 20.59 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

A. Amlinellodd yr Athro Spencer i'r Cyngor y pwyntiau allweddol sy'n ymwneud â'r grantiau ymchwil a'r data contractau a ddarparwyd. Amlinellwyd rhai tueddiadau cyffredinol, a thynnwyd sylw'r Cyngor, yn benodol, at y dirywiad sylweddol mewn grantiau cronfeydd strwythurol oherwydd nad yw cyllid yr UE ar gael i'r brifysgol mwyach. Nodwyd llwyddiant diweddar y brifysgol yn ennill cyllid trwy ddiwydiant y DU, gydag academyddion yn gweithredu i fanteisio ar y cyfleoedd hyn ar ôl Brexit.

B. Rhoddodd y Prif Swyddog Marchnata ddiweddariad i'r Cyngor ar recriwtio myfyrwyr. Nodwyd yn arbennig bod ceisiadau UCAS cyffredinol i'r brifysgol wedi gwella 29% ers y llynedd a'u bod wedi cynyddu 21% dros 2 flynedd. Nodwyd bod y brifysgol yn perfformio'n well na'r grŵp cystadleuwyr a sector y Deyrnas Unedig. Roedd ceisiadau gan ymgeiswyr o Loegr yn dal i gynyddu, i fyny 4% ers y llynedd, ac i fyny 35% dros 2 flynedd. Roedd y gostyngiad mewn ceisiadau ar ddechrau mis Ionawr wedi'i unioni, a bellach roedd y ceisiadau 15% yn uwch na'r llynedd, sy'n gynnydd tebyg i'r grŵp cystadleuwyr a sector y Deyrnas Unedig, ac 8% yn uwch na dwy flynedd yn ôl. Yn ôl y disgwyl, mae'r gostyngiad sylweddol yng ngheisiadau o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau, gyda gostyngiad o 35% ers y llynedd, ond mae ceisiadau rhyngwladol wedi gwella ac maent bellach 33% yn uwch na'r llynedd, a 51% yn uwch na dwy flynedd yn ôl.

**Cytunwyd** y byddai diweddariad pellach ar recriwtio myfyrwyr yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Ebrill.

## 20.60 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2020 a Chwefror 2021 (ynghlwm fel Atodiad I i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.61 ADRODDIAD O'R SENEDD

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Senedd a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2020 a Chwefror 2021 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.62 PWYLLGOR CYLLID A STRATEGAETH

**Cymeradwywyd** yr adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth a gynhaliwyd 15 Ionawr a 4 Chwefror 2021 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion).

## 20.63 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad yn ystod y flwyddyn: Awst 2020 - Ionawr 2021 gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (ynghlwm fel Atodiad IV i'r copi swyddogol o'r Cofnodion) a'i **nodi**.

**20.64 PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG**

**Cymeradwywyd** yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2021 (ynghlwm fel Atodiad V i gopi swyddogol y cofnodion).

**20.65 PWYLLGOR DISWYDDIADAU**

**Cymeradwywyd** yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Diswyddiadau a gynhaliwyd 25 Ionawr 2021 (ynghlwm fel Atodiad VI i gopi swyddogol y cofnodion).

**20.66 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU**

A. **Cymeradwywyd** yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 22 Ionawr 2021 (ynghlwm fel Atodiad VII i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Tynnwyd sylw'r Cygnor at y diffiniadau o swyddogaethau sydd ynghlwm i'r cofnodion, ac yn benodol cytundeb y Pwyllgor i benodi'r Athro Gareth Roberts i'r swyddogaeth newydd sef Dirprwy Gadeirydd/Uwch Lywodraethwr Annibynnol am weddill ei dymor ar y Cyngor.

**20.66 ADRODDIAD ADNODDAU DYNOL**

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol a **nodwyd** y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r cynllun Buddion Bangor a'r Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

C. **Cymeradwyodd** y Cyngor y cais i ddyfarnu statws Emeritas i'r canlynol:

- Yr Athro Nancy Edwards
- Yr Athro Carol Rumens

a statws Emeritws i:

- Yr Athro Huw Pryce
- Yr Athro Raimund Karl
- Yr Athro Steven Price

**20.67 SELIO**

**Cadarnhaodd** y Cyngor selio'r dogfennau a restrwyd yn Agendum 21.